## ASTUDIAETH ACHOS: SIEDIAU DYNION

### Cyflwyniad

Mannau cymunedol ydy Siediau Dynion, lle y mae dynion a menywod yn gallu cysylltu, sgwrsio a chreu. Fe'u sefydlwyd i helpu i leddfu teimlo'n unig ac yn ynysig ac mae llawer ohonyn nhw wedi datblygu i ddod yn fusnesau bach sy'n creu eitemau gwaith coed fel blychau nythu adar a chynefinoedd eraill ar gyfer bywyd gwyllt. Mae yna 550 o Siediau Dynion yn y DU. Yn y prosiect hwn, bu'r tîm Cysylltiadau Gwyrdd yn gweithio gyda thair Sied Dynion, yn Nhrefyclo, Llanfyllin ac Aberhonddu.

### Y Prosiect

Fel rhan o ymrwymiad Cysylltiadau Gwyrdd i wella bioamrywiaeth, sicrhawyd help Siediau Dynion i greu amrywiaeth o flychau, gan gynnwys blychau nythu'r wennol ddu, tai pryfed, blychau ystlumod a chartrefi i famaliaid bach fel y draenog. Fel rhan o brosiect Y Wennol Ddu ym Mhowys, bu Cysylltiadau Gwyrdd yn gweithio gyda'r Siediau i fireinio dyluniad blwch ar gyfer y wennol ddu y gellid ei osod o dan bargodion adeiladau. Adeiladwyd cyfanswm o 219 o flychau a nodweddion cynefinoedd.

### Sir Faesyfed

Comisiynodd RWT Sied Dynion Trefyclo i adeiladu amrywiaeth fawr o gartrefi anifeiliaid, gan gynnwys 57 o flychau adar a 12 o dai ystlumod a phryfed, a 15 o nodweddion cynefinoedd, gan gynnwys cynhwyswyr planhigion, arwyddion llwybrau natur ac un byrnwr gwair. Dosbarthwyd y blychau adar ac ystlumod ledled Sir Faesyfed i dirfeddianwyr, grwpiau cymunedol a busnesau. Defnyddiwyd y byrnwr gwair yn ystod astudiaeth dichonoldeb cynaeafu gwair â grym llaw. Plannwyd blodau gwyllt yn y cynhwyswyr planhigion a'u gosod ym Mharc Waun Capel ac Ardal Bywyd Gwyllt y Bontnewydd-ar-Wy.

### Sir Frycheiniog

Bu WSWWT yn gweithio gyda Sied Dynion Aberhonddu i adeiladu blychau'r wennol ddu a'r pathew. Gwnaed 11 o flychau'r wennol ddu ac addaswyd 50 o flychau'r pathew trwy osod sgriwiau yn lle hoelion i ddal y weiren sy'n cadw'r caeadau yn eu lle, torri hydau o weiren a thorri rhicynnau yn y caeadau i'w hatal rhag llithro o'u lle.

### Allbynnau'r Prosiect

| Siediau Dynion: | Aberhonddu | Trefyclo | Llanfyllin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Blychau'r wennol ddu | 11 | 27 | 45 | 83 |
| Blychau nythu adar | 0 | 25 | 0 | 25 |
| Blychau'r dylluan | 0 | 5 | 0 | 5 |
| Blychau ystlumod | 0 | 6 | 10 | 16 |
| Tai pryfed | 0 | 6 | 15 | 21 |
| Cartrefi'r draenog | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Blychau'r pathew | 50 | 0 | 0 | 50 |
| Nodweddion cynefinoedd | 0 | 15 | 0 | 15 |

| Digwyddiadau | Teitl | Mynychwyr |
|---|---|---|
| Llanfyllin | Diwrnod adeiladu blychau | 29 |

Yn ystod y prosiect, adeiladodd Siediau Dynion 204 o gartrefi anifeiliaid a 15 o nodweddion cynefinoedd, gan gynnwys arwyddion natur, cynhwyswyr planhigion a byrnwr gwair. Mynychodd 29 o bobl ddigwyddiad cydweithredol MWT â Siediau Dynion Llanfyllin.

**Sir Drefaldwyn**

Bu MWT yn gweithio gyda Sied Dynion leol Llanfyllin i adeiladu'r blwch perffaith ar gyfer y wennol ddu. Cymerodd aelodau'r Sied Dynion yr awenau, gan barhau i wneud mân addasiadau i'w dyluniad dros y flwyddyn nesaf nes bod y blwch delfrydol ar gyfer y wennol ddu yn barod i'w gynhyrchu.







Mae rhoi'r cyfle i Sied Llanfyllin adeiladu'r blychau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf, fwy neu lai, wedi bod o fudd mawr i'r grŵp gan nad ydyn nhw wedi cael llawer o archebion eraill. Mae wedi eu cadw'n brysur ac mewn "busnes". Mae hefyd wedi eu helpu i ddysgu sgiliau newydd, ac i ychwanegu'r sgiliau hyn at sgiliau aelodau newydd. Soniodd un aelod o'r pwyllgor am ba mor bwysig oedd ein cydweithrediad iddyn nhw, yn enwedig i aelod newydd sydd wedi'i ynysu oherwydd natur wledig ei gartref ac sydd heb adael y tŷ rhyw lawer ers Covid. Pan ymunodd â'r sied, aeth ati'n frwdfrydig i wneud y blychau a dysgu sgiliau newydd. Cynhaliodd MWT ddigwyddiad cydweithredol hefyd, sef Diwrnod Adeiladu Blychau, gyda Sied Llanfyllin yn helpu i hybu'r gwaith y maen nhw'n ei wneud yn yr ardal leol. Roedd aelodau'r sied wedi gwneud pecynnau fflat o flychau adar, blychau ystlumod a thai bychain pryfed i bobl eu rhoi at ei gilydd ar y diwrnod. Denwyd naw ar hugain o bobl i'r digwyddiad cymunedol hyfryd hwn. Roedd o help mawr i hybu'r sied a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud. Roedd gan ddau o bobl ddiddordeb mewn ymaelodi, ac roedd gan gwpl o bobl ddiddordeb mewn gosod archeb amdanyn nhw.


Cynhwysydd planhigion


Blych ystlumod


Blych wennol ddu

Lluniau gan RWT MWT a WTSWW


Blwch y draenog

**Deilliannau'r Prosiect**

- Bydd 204 o gartrefi newydd ar gyfer bywyd gwyllt yn cael eu defnyddio am flynyddoedd i ddod, gan wella cyfraddau goroesi, gwella bioamrywiaeth a gwneud cymunedau anifeiliaid yn gryfach.
- Addysgwyd sgiliau newydd i aelodau Siediau Dynion i helpu bywyd gwyllt yn y dyfodol a byddan nhw'n gallu rhannu'r sgiliau hynny ag aelodau presennol ac aelodau newydd.
- Cymuned newydd sy'n gallu cymryd camau i helpu bywyd gwyllt.